SWIM WALES®
NOFIO CYMRU

# RYDYN NI'N CYFLOGI!

## SWYDD WAG

## Swyddog Digwyddiadau a Gwirfoddoli

Disgrifiad Swydd a Manyleb Person

Swim Wales
Wales National Pool
Sketty Lane
Swansea
SA2 8QG

T: 01792 513636

# Swydd Ddisgrifiad Nofio Cymru

**Teitl y Swydd:** Swyddog Digwyddiadau a Gwirfoddoli

**Yn atebol i:** Rheolwr Digwyddiadau a Gwirfoddoli/Pennaeth Gweithgareddau Dŵr a Chynhwysiant

**Cyflog:** £22,800 y flwyddyn. (Yn dibynnu ar brofiad). Yn ogystal â threuliau priodol.

**Swydd:** Llawn amser parhaol (42 awr yr wythnos)

**Lleoliad**: Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe gyda theithio rheolaidd yn genedlaethol. Bydd angen teithio'n helaeth ledled Cymru felly mae mynediad at drafnidiaeth yn angenrheidiol.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau**: Dydd Sul, 10fed o Fedi.

Gwnewch gais drwy anfon eich CV, llythyr eglurhaol a ffurflen Monitro Amrywiaeth Nofio Cymru wedi'i chwblhau a swimwales-recruitment@swimming.org. Gellir cyflwyno llythyrau eglurhaol trwy fideo wedi'i recordio neu mewn fformat ysgrifenedig.

Lleoliad: Yn genedlaethol – Mae angen gallu teithio ar draws Cymru i gynnal digwyddiadau. Bydd angen cludiant.

I gael sgwrs anffurfiol am y rôl, e-bostiwch ein Rheolwr Digwyddiadau a Gwirfoddoli, Jack Brown (jack.brown@swimming.org).

Sylwch y bydd y rôl hon, oherwydd ei natur, ei dyletswyddau a'i chyfrifoldebau, yn amodol ar yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael gwiriad DBS manylach.

Swim Wales
Wales National Pool
Sketty Lane
Swansea
SA2 8QG

T: 01792 513636

**Diben y Swydd**

Nofio Cymru yw'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol ar gyfer yr holl ddisgyblaethau gweithgareddau dŵr yng Nghymru. Ei rôl yw arwain, cynghori, cefnogi, ymestyn a gwella cyfranogiad gweithgareddau dŵr i bawb waeth beth fo'u lleoliad, oedran, rhyw, ethnigrwydd neu anabledd. Gweledigaeth Nofio Cymru yw 'Gweithgareddau Dŵr i Bawb am Oes.'

Rôl y Swyddog Digwyddiadau a Gwirfoddoli fydd cefnogi'r gwaith o reoli a chyflwyno rhaglen digwyddiadau Rhanbarthol a Chenedlaethol gweithgareddau dŵr Cymru a helpu i arwain datblygiad a rheolaeth ein gweithlu o wirfoddolwyr ledled Cymru.

Mae digwyddiadau Cenedlaethol Nofio Cymru yn rhoi cyfle i athletwyr gystadlu ar safon Genedlaethol gan gynnwys Pencampwriaethau Cymru a chystadlaethau rhyngwladol mewn Nofio, Dŵr Agored, Polo Dŵr, Deifio a Nofio Artistig.

Mae'r rôl yn gofyn am feddwl arloesol, creadigol a chraff i ddatblygu a chyflwyno amrywiaeth o ddigwyddiadau deinamig, dan arweiniad gweithlu gwirfoddol angerddol a medrus, gan gefnogi Nofio Cymru i gyflawni'r strategaeth.

**Y Partneriaid hanfodol a'r pwyntiau cyswllt ar gyfer y rôl hon yw, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:**

- Prif Swyddog Gweithredol Nofio Cymru
- Uwch Dîm Rheoli Nofio Cymru
- Tîm Gweithgareddau Dŵr a Chynhwysiant Nofio Cymru (gan gynnwys pwyllgorau a grwpiau arweinyddiaeth gwirfoddol)
- Tîm Perfformiad Nofio Cymru
- Tîm Datblygu Busnes Nofio Cymru
- Clybiau Gweithgareddau Dŵr
- Gweithlu Gwirfoddol
- Awdurdodau Lleol, Ymddiriedolaethau Hamdden a Gweithredwyr Cyfleusterau
- Rhanbarthau Cymru
- Y Gwledydd Cartref (Lloegr, yr Alban a Phrydain Fawr)

**Y Cyfrifoldebau Allweddol yw, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:**

- Cefnogi'r Rheolwr Digwyddiadau a Gwirfoddoli ar gydlynu, sefydlu a chyflwyno'r holl ddigwyddiadau gweithgareddau dŵr Cenedlaethol a Rhanbarthol (trwyddedig) a hyrwyddir gan Nofio Cymru.
- Cefnogi'r Rheolwr Digwyddiadau a Gwirfoddoli i sicrhau y cedwir at bolisïau Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys cadarnhau gwiriadau Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chynnal asesiadau Risg.
- Trefnu trafodaethau/arolygon adborth ar ôl y digwyddiad a pharatoi neu gael adroddiadau ysgrifenedig sy'n ofynnol ar ddiwedd y digwyddiad.
- Sicrhau bod amodau ac amseroedd mynediad yn cael eu cynhyrchu yn amserol ac yn gywir drwy'r personél gweithgareddau dŵr perthnasol.
- Ymateb i ymholiadau digwyddiadau trwy lwyfannau cyfathrebu lluosog fel e-bost, ffôn a chyfryngau cymdeithasol.
- Trefnu a rheoli stoc ac offer archebu yn ôl yr angen.

SWIM WALES
NOFIO CYMRU

Swim Wales
Wales National Pool
Sketty Lane
Swansea
SA2 8QG

T: 01792 513636

- Cefnogi'r Rheolwr Digwyddiadau a Gwirfoddolwyr i gymeradwyo a phrosesu ffurflenni treuliau gwirfoddolwyr yn erbyn polisi treuliau gwirfoddol Nofio Cymru.
- Cyfathrebu a chydweithio'n effeithiol â chwsmeriaid, gwirfoddolwyr, staff, swyddogion a nofwyr yn ystod cyfarfodydd.
- Cynhyrchu a gweinyddu gwybodaeth am ddigwyddiadau gan gynnwys tocynnau ar gyfer ochr y pwll, gwybodaeth am y ddesg flaen, achrediad gwirfoddolwyr, ffurflenni treuliau, tocynnau maes parcio a phecynnau digwyddiadau ac ati.
- Codi archebion prynu yn unol â pholisïau ariannol y sefydliad.
- Rheoli calendr trwyddedu digwyddiadau Nofio Cymru, gan gynnwys rheoli calendr cystadlaethau gwefan Nofio Cymru.
- Cefnogi'r Rheolwr Digwyddiadau a Gwirfoddoli wrth recriwtio, cadw a datblygu gwirfoddolwyr.
- Helpu i sicrhau bod anghenion hyfforddi gwirfoddolwyr yn cael eu datblygu gan gynnwys cadarnhau a rheoli cymwysterau swyddogion.
- Gyda chefnogaeth y Rheolwr Digwyddiadau a Gwirfoddoli, arwain ar recriwtio, cadw a datblygu panel Ieuenctid Nofio Cymru sy'n cynnwys arwain ar brosiectau penodol i ddatblygu arweinwyr/llysgenhadon ifanc gweithgareddau dŵr Nofio Cymru.
- Gyda chefnogaeth y Rheolwr Digwyddiadau a Gwirfoddoli, arwain ar ddatblygu a rheoli cynllun gwobrwyo a chydnabod gwirfoddolwyr.
- Rheoli'r broses gyflwyno i gymeradwyo nofwyr Meistr Cymru, Prydain, Ewrop a'r Byd.
- Rheoli systemau digidol Nofio Cymru a ddefnyddir i reoli digwyddiadau, aelodaeth ac i recriwtio gwirfoddolwyr.
- Sicrhau bod yr agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei chydnabod fel un cadarnhaol, rhagweithiol a dylanwadol wrth gyfrannu at broses gynllunio strategol a gweithredol y sefydliad.
- Cynrychioli Nofio Cymru mewn cyfarfodydd perthnasol gyda phartneriaid allanol.
- Cefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo ar gyfer prosiectau a digwyddiadau yn ogystal â chyfleoedd nawdd masnachol, ochr yn ochr â'r Rheolwr Digwyddiadau a Gwirfoddoli, y Rheolwr Cyfathrebu a'r Pennaeth Datblygu Busnes.

**Gofynion eraill, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:**

- Y gallu i weithio oriau anghymdeithasol ac ar benwythnosau.
- Rhaid mynychu holl ddigwyddiadau Rhanbarthol a Chenedlaethol Nofio Cymru ar draws y disgyblaethau gweithgareddau dŵr.
- Y gallu i weithio gyda nifer o dimau o unigolion i ddarparu digwyddiadau o safon uchel.
- Y gallu i weithio'n annibynnol ar brosiectau.

Nid yw'r cyfrifoldebau uchod yn hollgynhwysfawr ac efallai y gofynnir i chi ymgymryd â gwaith priodol, y tu allan i'r swydd-ddisgrifiad hwn, o bryd i'w gilydd.

Mae Nofio Cymru yn hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth, ac yn croesawu ceisiadau gan bawb sydd â'r cymhwyster a'r/neu'r profiad angenrheidiol. Os oes gennych unrhyw ofynion penodol mewn perthynas â'r broses recriwtio neu gyfweld, soniwch am hyn yn eich llythyr eglurhaol.

Bydd y rôl hon yn amodol ar wiriad DBS manylach.

Swim Wales
Wales National Pool
Sketty Lane
Swansea
SA2 8QG

T: 01792 513636

## MANYLEB PERSON

| Mae'r swydd hon yn gofyn am | Hanfodol - dylid gallu darparu tystiolaeth o (neu ddangos gallu) | Dymunol |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth a sgiliau**<br><br>**Swyddogaethol a gweithredol**<br><br>**Cynllunio a threfnu gwaith** | Profiad o gynllunio, rheoli a darparu digwyddiadau mewn sefydliadau Chwaraeon, sefydliadau nid-er-elw neu sefydliadau elusennol. | Llwyddiant blaenorol o gynllunio, rheoli a darparu digwyddiadau llwyddiannus mewn sefydliadau Chwaraeon, sefydliadau nid-er-elw neu sefydliadau elusennol. |
| | Profiad o weithio mewn sefydliadau Chwaraeon, sefydliadau nid-er-elw neu sefydliadau elusennol. | Llwyddiant blaenorol o weithio mewn partneriaeth, gyda dealltwriaeth o'r sector digwyddiadau a'r sector gwirfoddol. |
| | Dealltwriaeth glir o fentrau datblygu chwaraeon a gwaith cymunedol ar waith. | |
| | Y gallu i arwain a chefnogi ystod o brosiectau a mentrau sy'n rhedeg ochr yn ochr. | Profiad o reoli prosiectau. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r holl ddisgyblaethau gweithgareddau dŵr gan gynnwys Nofio, Nofio Dŵr Agored, Deifio, Polo Dŵr a Nofio Artistig. |
| | Gwybodaeth a dealltwriaeth o gefnogi datblygiad a gweithrediad polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), cynnal arferion ac arferion da i wella canlyniadau ar gyfer y gweithlu, rhanddeiliaid a chymunedau. | Profiad o arwain, datblygu a gweithredu polisïau EDI. |
| | Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol gan gynnwys sgiliau dadansoddi a thrafod. Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar draws y sefydliad a chyda chyrff allanol. | Gallu siarad Cymraeg. Y gallu i gasglu, adrodd a chyflwyno prosiectau a mewnwelediad i gyrff mewnol ac allanol. |
| | Tystiolaeth o sgiliau rhyngbersonol da i ddatblygu a chynnal perthnasoedd iach a chadarnhaol gyda phartneriaid. | |
| | Y gallu i ddefnyddio TGCh i gasglu a dadansoddi gwybodaeth (yn enwedig Microsoft Excel). | Profiad o ysgrifennu adroddiadau. |

Swim Wales
Wales National Pool
Sketty Lane
Swansea
SA2 8QG

T: 01792 513636

| **Mae'r swydd hon yn gofyn am** | **Hanfodol - dylid gallu darparu tystiolaeth o (neu ddangos gallu)** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| | Cefnogi datblygiad a gweithrediad prosesau i gyflawni safonau ansawdd. | |
| | Yn gallu gweithio heb oruchwyliaeth agos gan ddefnyddio'u menter eich hun i nodi'r materion hynny y gellir ymdrin â nhw'n uniongyrchol a'r rhai sy'n gofyn am gyfeiriad at reolwr llinell, yn ogystal â gallu gweithio fel rhan o dîm a meithrin gwaith tîm da ymhlith cydweithwyr, ein gweithlu gwirfoddol a phartneriaid allanol ehangach. | |
| **Cyfrifoldeb** | Gweithredu a chadw at holl bolisïau a gweithdrefnau'r cwmni. | |
| | Cefnogi'r gweithlu gwirfoddol i yrru strategaeth, ymgysylltu a darparu cyfleoedd datblygu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol. | |
| | Y gallu i gymryd y fenter i fynd i'r afael â phroblemau a heriau yn annibynnol. | |
| | Tystiolaeth o reoli a chefnogi prosiectau/cynlluniau/calendrau hirdymor sy'n ffurfio rhan o'r cwmni ehangach a strategaethau datblygu gweithgareddau dŵr. | |
| **Cymhlethdod** | Mae hon yn rôl amrywiol iawn, sy'n cynnwys llawer o wahanol elfennau nad ydynt efallai'n perthyn yn agos i'w gilydd ac a allai ymestyn i sawl maes gweithgaredd. | Gwybodaeth am chwaraeon a datblygu busnes. |
| **Gofynion meddyliol** | Y gallu i weithio o dan bwysau; bydd y gwaith yn cynnwys cwrdd â therfynau amser, delio â phobl neu newidiadau cyson mewn blaenoriaethau ac ati. | |

SWIM WALES
NOFIO CYMRU

Swim Wales
Wales National Pool
Sketty Lane
Swansea
SA2 8QG

T: 01792 513636

| **Mae'r swydd hon yn gofyn am** | **Hanfodol - dylid gallu darparu tystiolaeth o (neu ddangos gallu)** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| **Ymddygiadau** | • Ceisio rhagoriaeth bob amser.<br>• Ysbrydoli eraill.<br>• Yn canolbwyntio ar ansawdd.<br>• Yn arloesol, yn herio'r drefn arferol ac yn greadigol.<br>• Yn rhagweithiol ac yn cyflawni canlyniadau, y parodrwydd ac ymrwymiad i gyflawni safonau uchel.<br>• Yn cydweithio'n effeithiol<br>• Yn cymryd ymagwedd gynhwysol bob amser ac yn dangos uniondeb a pharch at eraill.<br>• Yn feddylgar gyda meddwl agored. | |